# Cwestiynau allweddol ar gyfer ymddiriedolwyr sy'n rheoli cysylltiad eu helusen â sefydliad anelusennol

**Rhaid i chi hyrwyddo dibenion eich elusen er budd cyhoeddus yn unig, nid nodau'r sefydliad anelusennol**

**Rhaid i chi weithredu er lles gorau eich elusen yn unig**

### Cydnabod y risgiau

Sut mae'r cysylltiad â'r sefydliad anelusennol o fudd i'n helusen?
Beth yw'r risgiau i'n helusen?
Ydym ni wedi asesu a rhoi sylw i'r risgiau?
Pryd mae'r adolygiad nesaf o'r asesiad risg?

### Peidio â hyrwyddo dibenion anelusennol

Ydym ni'n deall cwmpas a therfynau dibenion ein helusen?
Ydy cyllid o neu i'r sefydliad anelusennol wedi'i gyfyngu i hyrwyddo ein dibenion elusennol?
Os ydym yn buddsoddi mewn is-gwmni - allwn ni gyfiawnhau'r buddsoddiad, ydym ni'n monitro ein buddsoddiad?

### Osgoi budd personol diawdurdod a rhoi sylw i wrthdaro buddiannau

Ydym ni wedi nodi a rhoi sylw i unrhyw wrthdaro ar gyfer unrhyw un o'n hymddiriedolwyr sydd:

- wedi'i benodi gan y sefydliad anelusennol
- ar ei Fwrdd
- yn gweithio yn y sefydliad anelusennol
- â chysylltiad arall ag ef?

Oes gennym ni gymeradwyaeth ar gyfer unrhyw fuddion ymddiriedolwyr sy'n dod o'r cysylltiad?

### Gweithredu'n annibynnol

Ydym ni'n rhydd i wneud ein penderfyniadau ein hunain er lles gorau ein helusen?
Ydym ni'n gwybod pryd na fyddem yn cytuno i gyllido neu drefniadau eraill â'r sefydliad anelusennol?

### Diogelu eich elusen

Ydym ni'n fodlon bod ein trefniadau â'r sefydliad anelusennol yn diogelu asedau, buddiolwyr ac enw da ein helusen?
Oes gennym ni gytundebau ysgrifenedig priodol?
Ydym ni'n diogelu sefyllfa ein helusen pan fyddwn yn:

- rhannu ein hadnoddau â'r sefydliad anelusennol
- rhannu adnoddau'r sefydliad anelusennol
- cyfathrebu ar y cyd?

### Cynnal hunaniaeth ar wahân eich elusen

Os ydym yn rhannu ein hunaniaeth gyda'r sefydliad anelusennol, sut mae hyn er lles gorau ein helusen?
Ydym ni wedi nodi a rhoi sylw i'r risgiau?
Ydy ein rhoddwyr yn gwybod pa sefydliad sy'n gofyn am eu cefnogaeth?
Sut ydym ni'n helpu pobl y tu allan i'n helusen i ddeall ein bod ar wahân i'r sefydliad anelusennol?